CRhA YGGG Llantrisant
Cylchlythyr - Haf 2022

Penawdau Haf y GRhA



Gyda diwedd y flwyddyn ysgol bron a dod i ben, rwy'n siŵr bod llawer yn edrych ymlaen at gael hoi fach o yrru i'r ysgol, paratoi pecynnau bwyd a golchi gwisgoedd ysgol.

Eleni gwelwyd ymdrech aruthrol wrth godi arian, yn amrywio o'n Llwybr Bwgan Brain Calan Gaeaf cyntaf, a hwyl a heriau yn Ffair Nadolig Pont-y-clun, i ail-lansio Dawns y Gwanwyn a'r Noson Ferched poblogaidd (mwy am hynny isod).

Diolch i Bwyllgor y GRhA a'ch holl gefnogaeth – rydym ar y trywydd iawn i godi £5,000 eleni – canlyniad gwych. Rydym eisoes yn edrych ymlaen at dymor yr Hydref prysur ac ar hyn o bryd yn cynllunio calendr prysur o ddigwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, felly cadwch lygad ym mis Medi!

Dawns y Gwanwyn

Dathlwyd y gwanwyn mewn steil yng Ngwesty'r Vale gyda Dawns y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ar 14eg Mai.

Cafwyd noson arbennig gydag adloniant, bwyd, diod a dawnsio wrth i'r band lleol Helter Skelter ein tywys ni yn gerddorol ar hyd y degawdau.

Diolch i haelioni busnesau ac unigolion lleol gyda'n ocsiwn a'n raffl, llwyddodd y digwyddiad i godi dros £2,700 i'r ysgol a'r plant – canlyniad rhagorol!

Rydym yn ddiolchgar am yr holl negeseuon diolch ac adborth ac edrychwn ymlaen at ddod at ein gilydd eto y flwyddyn nesaf.





Noson Ferched @ The Boar's Head

Ar y 14eg Gorffennaf am 7.30yp bydd cyfle i'r merched cymdeithasu dros wydraid o Prosecco, bwyd a bingo! Tocynnau £20 y pen.

Os nad ydych wedi cofrestru eto, ewch ati i fwcio lle erbyn 8yp 11eg Gorffennaf. bit.ly/PTALadiesNight

Nodau Codi Arian a Chyrhaeddiadau



Rydym ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r ysgol i brynu citiau robot addysgol i'r ysgol gyfan le bydd pob disgybl yn elwa.

Daeth y syniad o Senedd yr Ysgol a bydd yn gyfle i'r plant ennill profiad ymarferol a gwneud weithgareddau gwyddonol syml a hwyliog.

Rydym hefyd wedi cefnogi prynu hwdis i blant Blwyddyn 6 i helpu nhw ddathlu eu hamser yn yr ysgol ac edrych yn ôl gydag atgofion melys.

Ein prif nod arall am y flwyddyn – awgrym gwych arall gan Senedd yr Ysgol – oedd helpu i ddatblygu offer chwarae ac antur ar dir yr ysgol. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u gohirio ar hyn o bryd ac yn cael eu hail-werthuso oherwydd lleoli'r gazebo awyr agored newydd ger giatiau isaf yr ysgol.

Clwb 150 – Yr un olaf am 2021/22



Byddwn yn tynnu'r raffl olaf y flwyddyn hon ar 21ain Gorffennaf. Hyd yn hyn rydym wedi talu dros £600.

Byddwn yn cyhoeddi'r rhifau buddugol ar dudalen Facebook y GRhA.

Byddwn yn lansio Clwb 150 ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn yr Hydref- felly cadwch lygad! Edrychwn ymlaen at godi rhagor o arian i'r ysgol.

Codwch Arian wrth i chi Siopa

Peidiwch ag anghofio, gallwch gefnogi'r GRhA wrth archebu ar-lein:

Easyfundraising Registration

Amazon Smile Registration

Cysylltwch â ni

Os oes sylwadau, cynigion o gefnogaeth, neu os hoffech ymuno, byddem wrth ein boddau i glywed oddi wrthoch!

- yggglantrisantpta@gmail.com
- Facebook: YGGG Llantrisant PTA
- Twitter: @YGGG_Llant_PTA

CRhA YGGG Llantrisant

"Codi arian i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac academaidd plant YGGG Llantrisant"

Elusen Gofrestredig Rhif 1136117

YGGG Llantrisant PTA
Newsletter - Summer 2022

PTA Summer Headlines



With the end of the school year now upon us, I'm sure many are looking forward to a welcome break from school runs, packed lunches and washing uniforms.

This year has seen a tremendous effort in fundraising, ranging from our inaugural Halloween Scarecrow Trail and fun and challenges at Pontyclun's Christmas Fayre, to the re-launch of the Spring Ball and the ever popular Ladies' Night (see more below).

Thanks to the PTA Committee and all your support we are on track to raise £5,000 this year – a fantastic result. We're already looking forward to a busy Autumn term and currently planning a busy calendar of social events and activities, so keep an eye out for your diaries!

Gala Spring Ball

Spring was celebrated in style at the Vale Hotel with the PTA Ball held on 14th May.

We enjoyed entertainment, dinner, drinks and dancing, with live music through the decades by local band Helter Skelter.

Thanks to the generosity of local businesses and individuals with our auctions and raffle, the event helped raise over £2,700 for the school and children – a great result from a good night out!

We're grateful for all the thanks and feedback and look forward to getting together again next year.





Ladies' Night @ The Boar's Head

On 14th July at 7.30pm join us for a glass of Prosecco, a bite to eat and bingo! Tickets are £20 per person.

If you haven't already booked, you can do so here. Closing date 8pm 11th July. bit.ly/PTALadiesNight

Fundraising Goals and Delivery



We're currently working with the school to support the purchase of school-wide educational robot kits that all pupils will benefit from.

This was one of the suggestions of the School Parliament and will introduce the children to simple and fun science activities, and hands-on creation.

We've also supported the purchase of Year 6 Leavers' hoodies to help the children celebrate their time at the school and look back with fond memories.

Our other main aim for the year – another great suggestion from the School Parliament – was to help develop play and adventure equipment for the school grounds. These plans are currently on hold and are being re-evaluated due to the siting of the new outdoor gazebo near the lower school gates.

Clwb 150 – Last Draw of 2021/22



With over £600 paid out to date, the final Clwb 150 draw of the year will take place on 21st July.

Winning numbers will be posted on the PTA's Facebook page.

Look out for the new scheme which will be launched in the Autumn and aims to raise even more money for the school.

Raise Funds while you Shop

Don't forget, you can support our fundraising when you order on-line:

Easyfundraising Registration

Amazon Smile Registration

Contact Us

If you have any suggestions or would like to support or join the PTA please get in touch:

- yggglantrisantpta@gmail.com
- Facebook: YGGG Llantrisant PTA
- Twitter: @YGGG_Llant_PTA

YGGG Llantrisant PTA

"Raising funds to support the social and academic development of the children of YGGG Llantrisant"

Registered Charity No. 1136117